CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2015/16

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd: Carwyn Elias Jones**
**Grŵp: Plaid Cymru** **Ward: Seiriol**

## 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

**Pencampwr Amrywiaeth**
Rwy'n Bencampwr Amrywiaeth Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cyngor Llawn, Panel Penodi, Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** – Rwyf wedi siarad ar sawl pwnc yng nghyfarfodydd y Cyngor Llawn gan gynnwys y gyllideb. Mae'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn ymdrin â phrosiectau allanol ac mae'r Panel Penodi yn gyfrifol am y broses recriwtio a dethol pobl i swyddi uwch.

| **Rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2016, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | **[1]Ffigyrau Presenoldeb** |
|---|---|
| Cyngor | 5 (63%) |
| Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | 6 (100%) |
| Pwyllgor Penodiadau | 5 (56%) |
| Is-bwyllgor Indemniadau | Dim cyfarfodydd. |
| Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir. Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft. | |

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ac wedi mynychu 2 gyfarfod (33%).

## 2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

**Cynghorau Cymuned** – Rwyf yn mynychu cyfarfodydd y Cyngor Cymuned yn rheolaidd yn Llanddona, Cwm Cadnant a Llangoed, a hefyd yn mynychu Cyngor Tref Biwmares ac yn adrodd yn ôl iddo. Os oedd dau Gyngor Cymuned yn cyfarfod ar yr un noson, byddwn yn sicrhau rhwng y cynghorwyr bod rhywun yn gallu bod yn bresennol ym mhob un ar sail rota.

**Cartref Preswyl Haulfre Llangoed**
Yr ymgyrch i gadw Haulfre ar agor oedd un o brif ymgyrchoedd y flwyddyn. Yn dilyn cyfarfod gydag Uwch Swyddogion yn Llangefni, cawsom ein hysbysu efallai y byddai'n rhaid i Haulfre gau am resymau Iechyd a Diogelwch. Ar y cyd â'r Cynghorydd Lewis Davies fe wnaethom gychwyn ymgyrch sylweddol i achub y cartref preswyl gan alw am gyfarfod cyhoeddus llawn ar unwaith. Roedd cefnogaeth sylweddol gan y trigolion, staff, teulu a'r gymuned leol i gadw'r cartref ar agor. Roedd yr ymgyrch yn cynnwys sawl llwybr gwahanol gan gynnwys ymchwil hanesyddol i'r

[1] Darparwyd y ffigyrau presenoldeb gan Gyngor Sir Ynys Môn.

ymddiriedolaethau o gwmpas Haulfre ac adroddiadau Iechyd a Diogelwch. Cynhyrchwyd llythyrau achub Haulfre ac fe'u dosbarthwyd nhw ledled Ward Seiriol ac fe anfonwyd negeseuon e-bost a llythyrau ac fe gynhaliwyd cyfarfodydd, gwnaed popeth posibl. Y canlyniad oedd buddsoddiad o £160k gan Gyngor Ynys Môn yn y cartref ac fe ddiddymwyd y bygythiad uniongyrchol i gau'r cartref. Bydd yn rhaid i Gyngor Ynys Môn rŵan greu cynlluniau hirdymor ar gyfer y ddarpariaeth o ofal preswyl yn y ward.

**'Stad yr Ysgol' Llangoed**
Roedd hi'n wych gweld  y gwaith o adeiladu stad o 8 cartref teuluol yn cael ei gwblhau ger ysgol Llangoed ac ar ôl pwyso'n galed a thynnu cymaint o sylw â phosibl at y ffaith y dylid rhoi blaenoriaeth leol gyda chysylltiad Llangoed a Phenmon.

**Safle teithwyr Ffordd Pentraeth A5025**
Ym mis Chwefror, roedd Cyngor Ynys Môn yn mynd i gadarnhau'r gilfan ar ffordd Pentraeth fel safle parhaol. Sylwais ar yr adroddiad ar y dydd Mawrth a galwais gyfarfod cyhoeddus brys yn Llandegfan ar y dydd Gwener, cyfarfod a fynychwyd gan Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr. Yn dilyn yr ymyrraeth, cafodd yr adroddiad ei dynnu'n ôl yn y Pwyllgor gwaith ar y dydd Llun a chafwyd ymgynghoriad llawn. Fe ysgrifennom lythyr yn mynegi pryderon a dosbarthwyd 800 o lythyrau â llaw yn ardaloedd Llansadwrn a Llandegfan. Mae newydd ei gyhoeddi bod y Cyngor yn cytuno â ni nad yw'r gilfan ar Ffordd Pentraeth yn addas ac maent bellach wedi dewis tir ger y safle ailgylchu ym Mhenhesgyn. Roedd hwn yn waith caled iawn a oedd yn gofyn am nifer o erthyglau, sylw yn y Daily Post, Holyhead and Anglesey Mail, Chronicle, Newyddion BBC a S4C a nifer o lythyrau, negeseuon e-bost a gwaith ymchwil er mwyn ennill y frwydr. Roedd hefyd yn rhaid darllen dogfen gyfreithiol 1000 o dudalennau o'r cyfnod yr aethpwyd â'r mater hwn i'r llys yn 2008. Mae gwaith caled yn talu!

**Cymdeithas Ardal Chwarae Llanfaes**
Yn dilyn cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yng Nghanolfan Gymunedol Llanfaes fe gynorthwyais i sefydlu grŵp cyfansoddiadol ar y cyd â'r trigolion lleol. Fe wnaethom hefyd ddyfeisio cynllun arloesol newydd o'r enw 'cynnwys ac ysbrydoli' (involve and inspire) ar gyfer Llanfaes a oedd yn cynnwys nodau ac amcanion. Mae'r cam cyntaf eisoes wedi golygu bod cyfarfodydd grant wedi'u mynychu a bod ceisiadau am offer wedi'u gwneud.

**Llanfaes – WiFi am ddim**
Gan weithio gyda'r Swyddog Tai Cyfranogiad Tenantiaid yn y Cyngor fe wnaethom lwyddo gyda chais i gael band eang diderfyn am ddim a Wi-Fi ar gyfer trigolion Llanfaes i'w ddefnyddio yn y Ganolfan Gymunedol. Mae'r prosiect hwn yn cael ei redeg gan BT a Barclays ac maent wedi dewis 100 o wahanol leoliadau yn y DU. Llanfaes yw'r unig un yng Ngogledd Cymru ac mae'n un o ddau yng Nghymru.

**Wyneb y Ffordd a Thyllau yn y Ffordd** – Wedi pwyso am welliannau i wyneb ffyrdd, gyda gwaith ail-wynebu pwysig yn cael ei gynnal mewn sawl rhan o'r ward, yn cynnwys Llandegfan, Biwmares a chyffordd Llanfaes.  Mae nifer o dyllau wedi cael eu llenwi yn ogystal.

**Tai –** Mae materion tai wedi eu delio â nhw ar ran yr etholwyr o ran gofal a chynnal a chadw a helpu gyda cheisiadau am dai cymdeithasol.

**Llwyddiant – Blwch Post ar gyfer hen Landegfan**
Rhoddodd bleser mawr i mi weld blwch post yn cael ei godi yn hen Landegfan yn dilyn ymgyrch 12 mis a rhoi pwysau ar y Post Brenhinol.

**CPO Llaniestyn / Mynwent Llanddona**
Yn dilyn y CPO a'r cyfnod statudol a ddilynodd roedd yn rhagorol gweld y gwaith yn dechrau ar fynwent newydd yn Llaniestyn, rhywbeth yr oeddwn wedi brwydro'n galed amdano ers i mi gael fy ethol ym Mai 2013.

**Amddiffynfa Rhag Llifogydd Biwmares**
Roedd llawer o ymdrech wedi'i roi gan fy nghyd Gynghorwyr a Swyddogion y Cyngor i sicrhau'r gwaith amddiffyn llifogydd gwerth £1.2 miliwn ar gyfer Tref Biwmares. Gall llifogydd, fel mae nifer o drigolion yn ei wybod o brofiad, fod yn erchyll ac roeddem yn falch o allu diogelu'r cyllid hwn. Roedd gweld y gwaith ar waith yn rhoi llawer o foddhad.

**Allt Goch Bach**
Roedd contractwr wedi agor y ffordd hon rhwng Llandegfan a Biwmares heb ei hadfer yn llawn ac roedd yn achosi pryder. Tynnais sylw at y mater ar unwaith ac o fewn dyddiau fe orfodwyd y contractwr i ddychwelyd i gwblhau'r gwaith ar unwaith.

**Carchar a Llys Biwmares**
Gyda'r Cyngor yn awyddus i allanoli eu hasedau rydw i wedi rhoi pwysau ar y grŵp llywodraethu y dylai'r asedau pwysig, hanesyddol hyn sydd hefyd o ddiddordeb i dwristiaeth gael eu cadw fel ag y maen nhw er lles yr Ynys a'i phobl.

**Grŵp Facebook Ward Seiriol**
Rydw i wedi sefydlu Grŵp Facebook ar gyfer Cymuned Llandegfan er mwyn trafod materion a rhannu gwybodaeth, mae gan y grŵp 115 o aelodau hyd yma. Mae yna bellach grwpiau Facebook sy'n cynnwys 3 i Langoed, 2 i Fiwmares a rhai ar gyfer Llanfaes, Llanddona, Llansadwrn, Llandegfan a Ward Seiriol.

**Hwyl Y Pasg – Llanfaes, Llangoed a Llanddona**
Ymwelais gyda fy ngwraig a'n 3 o blant gyfres o ffeiriau Pasg a hynny yn neuadd bentref Llanfaes a Llangoed, cartref preswyl Haulfre a Neuadd Bentref Llanddona.

**Gwirfoddoli ar Dir Comin Llanddona**
Ymunais ag aelodau'r cyngor cymuned a thrigolion lleol er mwyn torri, clirio helyg, cotoneaster a bedw ar y tir comin ger ysgol Llanddona.

**Biwmares – Taith Prydain**
Hapus i allu cefnogi a cheisio sicrhau bod Taith Prydain yn dechrau o Ward Seiriol ac roedd yn braf gallu bod yno i godi llaw arnynt wrth iddynt ddechrau ar y daith.

**Trawsnewid Ardal Biniau Llanddona**
Gweithiais ar hyn am 18 mis a olygodd mynychu cyfarfodydd, ymgynghori, lluniau, amcan brisiau, cais ac ati ac roedd gweld yr ardal biniau diogel yn cael ei hadeiladu ym Mhonc y Felin yn rhagorol.

## 3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

**Llywodraethwr yn Ysgol David Hughes -** wedi mynychu nifer o gyfarfodydd o'r corff llawn a'r is-bwyllgor cyllid a phersonél.

**Llywodraethwr yn Ysgol Llandegfan** - wedi mynychu cyfarfodydd o'r corff llawn a'r is-bwyllgor cyllid a phersonél.

**Pobl Seiriol**
Mynychais gyfarfodydd Pobl Seiriol drwy'r flwyddyn er mwyn trafod ac edrych ar ffyrdd o helpu Ward Seiriol yn y dyfodol. Roedd modd i ni hefyd ddyrannu £10,000 i brosiectau lleol a gyflwynwyd drwy bob cyngor cymuned. Rhoddwyd £1.5k tuag at hysbysfwrdd newydd dros y ffordd i McCalls yn Llangoed, £500 i brosiectau cymunedol Ffrindiau Llangoed, £2k tuag at y gwaith ar neuadd bentref Llanddona, £1k tuag at welliannau i neuadd bentref Llandegfan, £1k tuag at siglen fasged ym mharc Llansadwrn, £2k i brynu pabell fawr ar gyfer digwyddiadau cymunedol yn ardal Biwmares a Seiriol ac i'w reoli gan Gyngor y Dref a £2k i dalu blwyddyn gyntaf yswiriant y bws mini £20k yr ydym wedi'i gael i ward Seiriol ei ddefnyddio ac a reolir gan y Ganolfan.

**4 - Dysgu a Datblygu**

Gan fy mod hefyd yn gweithio fel Darlithiwr Busnes rwyf yn diweddaru fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth o ddeddfwriaethau presennol a newydd yn gyson.

Rydw i hefyd wedi mynychu tri o sesiynau briffio yng Nghyngor Ynys Môn sy'n darparu gwybodaeth allweddol ar wahanol agweddau'r Cyngor a gwasanaethau allweddol.

**5 – Gweithgareddau a Materion Eraill**

Mae'r 12 mis diwethaf fel Cynghorydd wedi bod yn rhai pleserus ac mae helpu eraill a fy Ynys wedi rhoi llawer o foddhad personol i mi. Yr uchafbwynt heb os a'r amser mwyaf emosiynol oedd cael fy ngwahodd, ynghyd â'r Cynghorydd Lewis Davies, i weld trigolion, teulu a staff Haulfre dros gyfnod y Nadolig. Roeddent mor hapus ac yn gwerthfawrogi'r ymgyrch yr oeddem wedi'i gynnal yn ystod chwarter olaf 2015. Roedd y noson hon yn Haulfre wedi gwneud sefyll fel Cynghorydd yn ôl yn 2013 yn rhywbeth gwerth chweil.

Rwy'n frwdfrydig dros fy Ward ac yn gwneud fy ngorau i'r ardal. Y brif her i mi yw cydbwyso gofynion y rôl gyda fy swydd fel darlithydd Astudiaethau Busnes a fy mywyd cartref ble mae gennyf 3 o blant ifanc a gwraig.

Byddaf yn mynd i fy mhedwaredd blynedd fel aelod etholedig gyda brwdfrydedd a gan gredu y gallwn fel Awdurdod Lleol a Chynghorwyr wneud cynnydd pellach a helpu mwy o bobl.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:
http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=295&LLL=1

| | |
|---|---|
| **Y Cynghorydd Carwyn Elias Jones** | **Ebrill 2016** |